Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dydd Iau, 8 Mawrth 2018

9.30 - 12.05

Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

Yn bresennol:

Cyfarwyddwyr:	Dr Haydn E Edwards (Cadeirydd) William Callaway, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Yr Athro Jerry Hunter, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Gwilym Dyfri Jones, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Dr Hefin Jones, Cyfarwyddwr yn cynrychioli staff academaidd / Deon y Coleg Dr Gwyn Lewis, Cyfarwyddwr Annibynnol Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Yr Athro Hywel Thomas, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Linda Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol (Is-Gadeirydd)
Sylwedydd:	Dr Cliona O'Neill, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW)
Swyddogion:	Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr Dr Dylan Phillips, Uwch Reolwr Academaidd Catherine Rees, Ysgrifennydd Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd Nia Brown, Swyddog Datblygu: Ysgrifenyddiaeth
Ymddiheuriadau:	Yr Athro Iwan Davies, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Ellen Jones, Cyfarwyddwr yn cynrychioli myfyrwyr Ieuan Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso a chyflwyniad	1.1 Estynnwyd croeso i'r aelodau gan y Cadeirydd. 1.2 Diolchwyd i staff y Coleg am eu gwaith yn trefnu'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a'r Cynulliad Blynyddol y diwrnod cynt a diolchwyd i'r Cyfarwyddwyr yn ogystal am eu cefnogaeth. 1.3 Derbyniwyd ymddiheuriadau i'w cynnwys yn y cofnodion.		
2. Datganiadau o ddiddordeb	2.1 Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn lle gofynnir i aelodau nodi ar y daflen arwyddo presenoldeb unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau. 2.2 Datganodd Gwilym Dyfri Jones ddiddordeb yn Eitem 11 – Adroddiad y Prif Weithredwr am ei fod yn gyflogedig gan sefydliad sy'n cyflwyno cais i weithredu fel canolfan hyfforddi athrawon.		
3. Derbyn ac ystyried cofnodion cyfarfod 22 Tachwedd 2017	3.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2017.		
4. Materion yn codi	4.1 <u>Eitem 4.1 – Banc Barclays</u> Adroddwyd bod y Coleg wedi trefnu cyfieithiad i'r ffurflenni banc Barclays a ddefnyddir gan y Coleg, a'n bod yn aros am gadarnhad fod y banc yn hapus i'r Coleg eu defnyddio ar gyfer cofrestru cyfarwyddwyr newydd. 4.2 <u>Eitem 7.4 – Ymddiriedolaeth William Salesbury</u>		

	Adroddwyd bod John Gwilym Jones wedi ymddeol o gadeiryddiaeth Ymddiriedolaeth William Salesbury ac mai Dr Gwenllian Lansdown Davies yw'r cadeirydd newydd. Mae trafodaethau wedi'u cynnal i ffurfioli'r cyswllt rhwng y Coleg a'r ymddiriedolaeth gan gynnwys cyflwyno Ysgoloriaeth William Salesbury yn un o ddigwyddiadau blynyddol y Coleg. 4.3 <u>Eitem 8.3 – Prosiect Seren</u> Cymeradwywyd awgrym i wahodd cynrychiolydd o brosiect Seren i roi cyflwyniad yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Cyfarwyddwyr.	Gwahodd cynrychiolydd Seren i'r BC	20 Mehefin 2018
5. Materion Archwilio a Risg **(Eitem 6a)**	**Pwyllgor Archwilio a Risg** 5.1 Nodwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2018. **Penodi Archwilwyr Mewnol ac Allanol** 5.2 Adroddodd William Callaway, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, ar argymhellion y pwyllgor i benodi archwilwyr mewnol ac archwilwyr allanol. **Archwilwyr Allanol** 5.3 Derbyniwyd un tendr ar gyfer archwilwyr allanol a chynhaliwyd cyfweliad llawn. Cymeradwywyd argymhelliad y panel i ail-benodi PriceWaterhouse Coopers fel Archwilwyr Allanol y Coleg ar gyfer tymor pellach tan fis Gorffennaf 2021. **Archwilwyr Mewnol** 5.4 Adroddwyd na dderbyniwyd unrhyw dendrau ar gyfer archwilwyr mewnol. Nid oedd cwmni Baldwins wedi		

(Eitem 6ch)	cynnig gan na allant ymrwymo i wasanaeth Gymraeg ymhen blwyddyn. Nodwyd gofid y pwyllgor a'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ynghylch diffyg cwmnïau sy'n cynnig gwasanaeth archwilio mewnol trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn sgil hynny bydd y Coleg yn cyrchu cyngor yr ICAEW. Cymeradwywyd argymhelliad y pwyllgor i ail-benodi Baldwins am flwyddyn dros dro hyd at 31 Mawrth 2019 fel Archwilwyr Mewnol. **Y Gofrestr Risg** 5.5 Cafwyd adroddiad ar y newidiadau i'r Gofrestr Risg gan William Callaway, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg. Yn dilyn cyngor y Pwyllgor Archwilio a Risg mae'r Gofrestr wedi'i ddiwygio i gynnwys chwe grŵp risg. Croesawyd a chymeradwywyd y newidiadau i'r Gofrestr Risg sy'n adlewyrchu'r prif risgiau strategol fel sy'n ymddangos yng nghynllun gweithredu'r Coleg. Bydd y Gofrestr Risg ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno i Gyfarfod nesaf y Bwrdd.	Cofrestr Risg	20 Mehefin 2018
6. Materion Llywodraethiant	**Cyfarfod y Llys, 7 Mawrth 2018** 6.1 Derbyniwyd adroddiad llafar ar Gyfarfod Blynyddol y Coleg (Llys), a gyfarfu'r diwrnod cynt, gan yr Ysgrifennydd. Yn ystod y cyfarfod cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol 2016/17 y Coleg a chyfrifon archwiliedig y Coleg ar gyfer y cyfnod tan 31 Mawrth 2017. Nodwyd y penderfyniadau i ddiwygio Erthyglau Cymdeithasu'r Coleg. Cyflwynir y newidiadau i'r Comisiwn Elusennau er mwyn derbyn eu cadarnhad. Cafwyd cyflwyniad gan y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd ar ddatblygiadau ymestyn cyfrifoldeb y Coleg i faes addysg bellach.		

	Penodi Cyfarwyddwyr 6.2 Cymeradwywyd penodi Pedr ap Llwyd, Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a Llinos Roberts, Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol a'r Iaith Gymraeg, Coleg Cambria, fel cyfarwyddwyr am dymor o bedair blynedd o 1 Ebrill 2018 hyd at 31 Mawrth 2022. **Tymor gwasanaeth aelodau'r Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant** 6.3 Cymeradwywyd ymestyn ail dymor gwasanaeth Rhiannon Lloyd, aelod o'r Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant, tan 31 Gorffennaf 2018. Yn dilyn trafodaeth cymeradwywyd, mewn egwyddor, ymestyn pob tymor aelodaeth is-bwyllgorau'r Bwrdd i ddiwedd blwyddyn academaidd. **Pwyllgor Archwilio a Risg** 6.4 Argymhellwyd a chymeradwywyd penodi Peter Curran, Cyfarwyddwr Cyllid Chwaraeon Cymru, yn aelod allanol ychwanegol i'r Pwyllgor Archwilio Risg o 1 Ebrill 2018 – 31 Gorffennaf 2021.	Ymestyn tymhorau aelodaeth i ddiwedd blwyddyn academaidd	Pan fod tymhorau cyfredol yn dod i ben
(Eitem 7)	**Rhaglen waith y Bwrdd Cyfarwyddwyr** 6.5 Derbyniwyd rhaglen waith y Bwrdd Cyfarwyddwyr a fydd yn sail i gynllunio gwaith blynyddol y Bwrdd. **Holiadur ar gyfer Cyfarwyddwyr** 6.6 Adroddodd yr Ysgrifennydd y bydd yn cylchredeg holiadur i'w gwblhau gan y cyfarwyddwyr fel y gall cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Penodiadau a Safonau	CR i gylchredeg yr holiadur i'w gwblhau gan y cyfarwyddwyr	Erbyn 24 Ebrill 2018

	Llywodraethiant ar 16 Mai 2018 a'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 20 Mehefin 2018.		
7. Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant **(Eitem 8)**	7.1 Nodwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2018.		
8. Cylchoedd Gorchwyl **(Eitemau 9a/b/c)**	8.1 Yn sgil adolygu trefniadau llywodraethiant y Coleg trafodwyd a chymeradwywyd y cylchoedd gorchwyl canlynol: • Bwrdd Academaidd • Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol • Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant 8.2 Adolygir y cylchoedd gorchwyl yn flynyddol, i'w cymeradwyo gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr.	Cylchoedd gorchwyl i'r BC	Yn flynyddol fis Tachwedd
9. Adroddiad y Prif Weithredwr **(Eitem 11)** **(Eitem 11 Atodiad A)**	9.1 Derbyniwyd crynodeb llafar gan y Prif Weithredwr o'r adroddiad ysgrifenedig oedd wedi ei gylchredeg o flaen llaw. **Cynllun Gweithredu 2017/18** 9.2 Adroddwyd bod y gwariant blynyddol yn unol â'r hyn a ragwelwyd a'r ffigyrau'n agos at fod yn derfynol. Roedd diweddariad ar y targedau wedi'i ddosbarthu i aelodau'r Bwrdd, er gwybodaeth. 9.3 Adroddwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau cyllid ychwanegol o £150,000 ar gyfer 2018/19. Bydd y cyllid hwn yn benodol ar gyfer gweithgareddau cychwynnol yn		

	dilyn derbyn yr argymhelliad i ymestyn cyfrifoldebau'r Coleg i'r sector ôl-16.		
(Eitem 11 Atodiad C)	**Cynllun Gweithredu 2018/19** 9.4 Derbyniwyd Cynllun Gweithredu 2018/19 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd y mis. Adroddwyd nad oedd unrhyw newidiadau sylfaenol i'r gweithgareddau yn y sector addysg uwch heblaw am y cyllid uwch a fyddai'n cael ei neilltuo ar gyfer Grantiau Pynciol yn seiliedig ar y Cynllun Academaidd newydd. Mae'r newid hwn yn adlewyrchu'r ffaith bod tymor cyllido'r Coleg ar gyfer carfan arall o swyddi a noddwyd drwy'r Cynllun Staffio Academaidd yn dod i ben ar 31 Gorffennaf. 9.5 Adroddwyd yn fyr ar gyfarfod cyntaf y Grŵp Cynllunio a sefydlwyd ar y cyd rhwng y Coleg a Llywodraeth Cymru. Nodwyd y byddai adroddiad cynnydd ar waith y Grŵp Cynllunio yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf.		
(Eitem 11 Atodiad B)	**Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen** 9.6 Derbyniwyd diweddariadau i'r ymatebion a gyflwynwyd yn wreiddiol i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 19 Medi a 22 Tachwedd 2017 i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru. 9.7 Nodwyd cyd-destun ehangach ymestyn gweithgareddau'r Coleg i'r sector ôl-16, a chyd-destun sefydlu'r corff statudol arfaethedig newydd ((PCET). Nodwyd y disgwylir ymgynghoriad technegol ar y corff newydd yn y gwanwyn. **Cynllun Staffio a Fframwaith Gwerthuso** 9.8 Mae'r Coleg wedi sefydlu trefn monitro i adolygu unrhyw newidiadau yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o		

	ganlyniad i newidiadau ym mhatrwm cyllido'r Coleg o'r Cynllun Staffio Academiadd i Grantiau Pynciol. 9.9 Nododd y Prif Weithredwr y bydd y Coleg yn sefydlu fframwaith gwerthuso er mwyn asesu effaith buddsoddiad a chefnogaeth gan y Coleg. Byddai'r ymarferiad yma yn talu sylw penodol i'r data HESA blynyddol ac unrhyw newidiadau sylweddol o ran patrymau dewisiadau myfyrwyr. **Diweddariadau cyffredinol ar waith y Coleg** 9.10 Derbyniwyd adroddiadau ysgrifenedig mewn perthynas â Marchnata a Chyfathrebu; Gwasanaethau Gwybodaeth; Hyfforddiant Academaidd a Datblygu Staff; a Gwerddon a phrosiectau cyhoeddi eraill, er gwybodaeth. Bydd cyflwyniadau llafar gan reolwyr yn y dyfodol.		
10. Materion Staffio	10.1 Nodwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Staffio a gynhaliwyd ar 8 Ionawr a 22 Chwefror 2018. 10.2 Cafwyd adroddiad llafar ar ail-strwythuro mewnol. Yn dilyn ymadawiad yr uwch reolwr, Dr Gwennan Schiavone, adolygwyd y strwythur rheolwyr a gwnaethpwyd tri phenodiad ar lefel Rheolwr Academaidd, sef Rhian Jones, Mari Fflur a Dr Lowri Morgans. Mae swydd Suzanne Lewis wedi ei hail ddynodi yn ogystal. Cadarnhawyd nad oes costau ychwanegol yn dilyn yr ail-strwythuro. 10.3 Mewn ymateb i ofid yr aelodau ynghylch lles y staff wrth i'w llwyth gwaith gynyddu, yn sgil sefydlu pwyllgor newydd ac ymestyn rôl y Coleg i faes addysg bellach,	Diweddariad ar lwyth gwaith y staff	20 Mehefin 2018

	cytunwyd i gadw llygad ar y sefyllfa a darparu adroddiad i'r cyfarfod nesaf.		
11. Materion Cyllid **(Eitem 13a)** **(Eitem 13b)**	**Llythyr Grant Llywodraeth Cymru** 11.1 Adroddwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau cyllideb y Coleg ar gyfer 2018/19 ar fore'r cyfarfod. Disgwylir y Llythyr Gorchwyl ffurfiol yn y dyfodol agos. Nodwyd y byddai'r Llythyr Gorchwyl yn cael ei gylchredeg wedi iddo ddod i law. **Cyllideb ddrafft y Coleg ar gyfer 2018/19** 11.2 Cyflwynwyd cyllideb ddrafft y Coleg ar gyfer 2018/19 gan y Cofrestrydd. 11.3 Nodwyd bod y cyllid yn dilyn patrwm tebyg i'r blynyddoedd a fu a nodwyd ymhellach yr incwm ychwanegol a dderbynnir gan y Coleg. 11.4 Derbyniwyd y gyllideb ddrafft ar gyfer 2018/19, gan awdurdodi'r swyddogion i wneud unrhyw fân-newidiadau pellach a allai godi yn dilyn trafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. **Polisi Buddsoddiadau** 11.5 Cafwyd diweddariad gan y Cofrestrydd ar y camau i sefydlu fframwaith Polisi Buddsoddiadau ar gyfer y Coleg. Mae cyfarfodydd wedi'u trefnu gyda Sarasin a Brewin Dolphin yn ystod mis Ebrill gyda'r bwriad o'u gwahodd i roi cyflwyniad i'r Pwyllgor Archwilio a Risg nesaf ar 15 Mai 2018.	Cylchredeg y llythyr grant	Ebrill 2018

12.Cynllunio Academaidd **(Eitem 14)**	**Grantiau pynciol 2018/19** 12.1 Cafwyd cyflwyniad ar argymhellion dyfarniadau grantiau pynciol ar gyfer 2018/19 gan Dr Dylan Phillips. Derbyniwyd yr argymhellion.		
13. Bwrdd Academaidd	13.1 Cafwyd crynodeb o gyfarfod Bwrdd Academaidd, 7 Chwefror 2018, gan y Deon, Dr Hefin Jones. 13.2 Nododd bod y Bwrdd Academaidd wedi adolygu pum cynllun pwnc yn y cyfarfod sef: Mathemateg a Ffiseg, y Gyfraith, Gwyddorau'r Heddlu a Throseddeg, Celf a Dylunio a Meddygaeth. Adolygir rhagor fis Mai. 13.3 Adolygwyd cylch gorchwyl y Bwrdd Academaidd (fel y trafodwyd yn eitem 9). 13.4 Trafodwyd y cysyniad o ddarlithwyr cysylltiol y Coleg er mwyn gwarchod y gymuned academaidd a ddatblygwyd drwy'r cynllun staffio. 13.5 Derbyniwyd papur trafod gan y myfyrwyr ar adnoddau cyfrwng Cymraeg. Codwyd nifer o gwestiynau ynghylch cynyddu ymwybyddiaeth o fodolaeth adnoddau cyfrwng Cymraeg, yr angen am fwy o gymorth ar gyfer myfyrwyr â'r cyflwr dyslecsia a'r posibilrwydd o'r paneli pwnc yn comisiynu adnoddau pellach. 13.6 Trafodwyd y diffiniad o fodiwl cyfrwng Cymraeg a'r gwahaniaethau o ddisgyblaeth i ddisgyblaeth. Nodwyd bod canllawiau trothwy 20 credyd gan y Coleg.		

	13.7 Nodwyd bod y Prif Weithredwr a'r Deon wedi mynychu cyfarfod o weithgor y QAA i adolygu canllawiau ar gyfer asesu gwaith a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg. 13.8 Nodwyd bod y Deon dri chwarter ffordd trwy ei daith flynyddol â'r sefydliadau addysg uwch. 13.9 Nodwyd bod y Prif Weithredwr wedi penderfynu nad oedd yr amserlen cyfarfodydd yn caniatáu i gofnodion y cyfarfod fod yn barod oherwydd llwyth gwaith y swyddogion. Fe'u dosberthir maes o law.	Cylchredeg cofnodion BA i'r BC	Gwanwyn 2018
14. Ysgoloriaethau	14.1 Derbyniwyd adroddiad llafar gan y Cofrestrydd ar adolygu trefniadau cynlluniau Ysgoloriaethau'r Coleg yn dilyn argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen. 14.2 Awdurdodwyd y swyddogion i gyflwyno'r argymhellion i'r Llywodraeth ar ddiwedd yr ymgynghoriad ac i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr fis Mehefin.		
15. Marchnata a Chyfathrebu **(Eitem 17)**	15.1 Cafwyd cyflwyniad gan yr Ysgrifennydd ar y Cynllun Marchnata ddrafft ar gyfer 2018/19 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. 15.2 Nodwyd bod y cynllun yn adlewyrchu argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a blaenoriaethau'r Llywodraeth. 15.3 Yn ystod y drafodaeth nodwyd y canlynol: • Croesawyd yr argymhelliad i godi ymwybyddiaeth ymhlith athrawon • Cydnabod yr angen i ddylanwadu ar y dylanwadwyr yn sgil adnoddau prin y Coleg		

	• Pwysigrwydd sicrhau bod adnoddau a gwerslyfrau Cymraeg yn cael eu cyhoeddi'r un pryd â fersiynau Saesneg • Pwysigrwydd llysgenhadon y Coleg 15.4 Yn dilyn y drafodaeth cymeradwywyd y Cynllun Marchnata a Chyfathrebu.		
16. Materion y Cadeirydd	16.1 Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad ar ei waith yn ystod y tymor. 16.2 Cafwyd nifer o gyfarfodydd mewnol i drafod adolygu Llywodraethiant y Coleg a chyfarfodydd cynllunio i drafod amryw bwyllgorau a'r Bwrdd Cyfarwyddwyr. 16.3 Bydd yn mynychu cyfarfodydd gyda'r Prif Weithredwr yn y sefydliadau addysg uwch yn ystod Tymor yr Haf. 16.4 Gan mai dyma oedd cyfarfod olaf Linda Wyn, diolchwyd iddi am ei gwasanaeth ar y Bwrdd Cyfarwyddwyr ers y cychwyn cyntaf yn 2011, gan gynnwys gweithredu fel Is-Gadeirydd am ran helaeth o'r cyfnod hynny.		
17. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf	17.1 Nodwyd dyddiad y cyfarfod nesaf: • 20 Mehefin 2018, Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam 17.2 Diolchwyd i'r cyfieithwyr ar y pryd am eu gwaith.		